# Sefwch gyda'ch gilydd dros gyflogau gwell

TÂL GWEITHIWR YSGOL A CHYNGOR 2024

UNISON
Cymru Wales

**Mae angen codiad cyflog teilwng ar staff cymorth mewn ysgolion. Mae eich llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb a cholli staff, tra mae eich sefyllfa ariannol bersonol wedi dioddef ergyd ddifrifol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Mae gwerth cyflogau rhai aelodau o staff mewn ysgolion wedi gostwng 25% ers 2010, sy'n golygu bod pob ceiniog yn fwy gwerthfawr nag erioed.**

Mae UNSAIN yn ymgyrchu dros godiad cyflog teg i weithwyr ysgolion a chynghorau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cyflwyno hawliad cyflog sy'n galw am godiad cyflog o £3,000 neu 10%, pa un bynnag sydd uchaf yn eich amgylchiadau unigol chi. Byddai cynnydd cyfradd safonol yn cael ei gyfrifo pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser a'r rheini sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig. Rydym hefyd yn gofyn am roi isafswm cyflog o £15 yr awr ar waith dros y ddwy flynedd nesaf, fel gwarant ychwanegol yn erbyn cyflogau isel.

Mae cynnig cyflog teilwng yn hanfodol a dim ond drwy sefyll gyda'n gilydd y gwnawn ni anfon neges glir at gyflogwyr eich bod yn haeddu mwy.

Dyma 3 enghraifft o bethau syml a hawdd y gallwch chi eu gwneud heddiw:

### 1) Gwirio a diweddaru eich data

Mae mor bwysig eich bod yn cadw eich gwybodaeth gyswllt yn gyfredol – fel arall, ni allwn gysylltu â chi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am eich cyflog. Treuliwch 5 munud yn gwirio pa fanylion sydd gennym ni yn barod gan ddefnyddio MyUNISON – **www.unison.org.uk/my-unison**

### 2) Cysylltu â'ch cynghorydd i gefnogi'r codiad cyflog

Mae gan gynghorwyr lleol y pŵer i godi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda chyflogwyr. Mae angen eich help arnom i'w perswadio i ddefnyddio eu dylanwad a chefnogi codiad cyflog teilwng i weithwyr ysgolion a chynghorau. Anfonwch e-bost at eich cynghorydd yma: **https://action.unison.org.uk/page/145600/action/1**

### 3) Anfon e-bost at eich AS ynghylch y lefelau cyllid mewn ysgolion

Mewn ysgolion, mae lefel y cyllid yn dal yn is nag yr oedd yn 2010. Mae tanfuddsoddi mewn addysg yn esgor ar argyfwng recriwtio a chadw staff ym maes addysg, sy'n effeithio ar lwyth gwaith staff ac ansawdd y dysgu. Anfonwch e-bost at eich AS yma yn gofyn iddo godi'r mater hwn yn y senedd: **https://action.unison.org.uk/page/130424/action/1**

Mae'r mwyafrif helaeth o academïau yn gweithredu cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NJC), ond holwch eich cangen os nad ydych chi'n siŵr. Cofiwch mai UNSAIN, GMB ac Unite yw'r unig dri undeb sy'n negodi gyda'r cyflogwyr ar gyflog NJC.

Mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan
a sefyll gyda'n gilydd dros gyflogau gwell.
Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrch ar gael yn:
**www.unison.org.uk/LGpay**

Published by UNISON, 130 Euston Road, London NW1 2AY

CU / March 2024 / 300 / 4584